



Hoffai Cyngor Gwynedd ac Adran Trwyddedu'r Heddlu gynnig cyngor a chymorth lle gallwn er mwyn sicrhau bod staff a chwsmeriaid i gyd yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn wrth i chi ail-agor eich busnes.

Mae canllawiau presennol yn argymhell:

- Ni ddylai busnesau ganiatáu i berfformiadau byw, gan gynnwys drama, DJ's, comedi a cherddoriaeth gael eu cynnal o flaen cynulleidfa fyw.
- Mae hyn yn bwysig i liniaru'r risg o drosglwyddo dafnau a chwistrell drwy'r aer gan y perfformiwr/perfformwyr neu eu cynulleidfa.
- Dylid cadw cerddoriaeth wedi'i recordio ar lefel gefndirol er mwyn sicrhau nad oes angen codi lleisiau i bobl gael eu clywed.
- Ni ddylid caniatáu dawnsio. Dylai personau cyfrifol atal a pherswadio cwsmeriaid i beidio â dawnsio.
- Dylid cadw gweithgareddau fel cwisiau hefyd ar lefel gefndirol.

Darparwyd gwybodaeth ar wahân mewn perthynas â sgrinio digwyddiadau chwaraeon byw ac mae'r un cyngor yn berthnasol:

- Ni ddylai busnesau ganiatáu na darparu unrhyw adloniant lle mae hynny'n annog gweiddi, llafarganu neu beryglu ymbellhau cymdeithasol sydd yn ofyn cyfreithiol.

Felly, mae angen i fusnesau ystyried y ddarpariaeth benodol hon fel rhan o'u proses asesu risg. Bydd gennych asesiad risg yn ei le eisoes i weithredu yn ystod COVID, yn ymdrin â sut mae eich busnes yn gweithredu'n ddiogel ac yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau yn ôl y gofyn.

Rhaid i ddarpariaeth adloniant (o bob math) bellach fod yn **ychwanegol at eich** asesiad risg Covid presennol a bydd angen iddo fod yn ysgrifenedig ac yn ei le **CYN** iddo gael ei gynnal

Cyn Ail-agor

Ystyriwch y camau isod a bodlonwch eich hun ei bod hi'n ddiogel ail-agor gyda darpariaeth adloniant, gan gynnwys cerddoriaeth wedi'i recordio:

- Sicrhewch nad yw cwsmeriaid yn ymgasglu, cymysgu neu'n sefyll gyda'i gilydd. Mae gofynion ymbellhau cymdeithasol yn gyfraith a rhaid eu gorfodi.
- Dylai pob busnes sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi'r angen i bobl godi eu lleisiau'n ormodol at y naill a'r llall.
- Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, peidio â chwarae cerddoriaeth na darllediadau allai annog gweiddi, ac os yw'n cael ei chwarae ar lefel sain sy'n gwneud sgwrs arferol yn anodd.
- Efallai y byddwch hefyd eisiau ystyried posterï a chyhoeddiadau ynglŷn â'r rheolau yn eich adeiladau.
- Sicrhewch fod staff yn atgoffa'r holl gwsmeriaid o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ryngweithio â hwy.
- Ymyrrwch yn gynnar os fydd cwsmeriaid yn dechrau mynd yn swllyd neu ddim yn cadw at y rheolau a osodwyd. Sicrhewch eu bod yn gwybod beth yw canlyniadau peidio ag ymddwyn yn y modd a nodwyd gennych yn eich asesiad risg.
- Eglurwch fod unrhyw reolau yno i ddiogelu staff a chwsmeriaid i fwynhau eich busnes yn ddiogel ac yn unol â'r gyfraith.
- Nid effeithio ar eich trwydded yn unig fydd unrhyw dor-cyfraith yn ystod y broses hon ond gallai hefyd effeithio ar iechyd pawb yn y gymuned.
- Gwnewch bopeth o fewn eich gallu i gadw at y rheolau a mwynhau'n ddiogel os gwelwch yn dda.

Anfonwch gopi o'ch asesiad risg i gynorthwyo Swyddogion yn ystod eu hymweliadau yn y cyfnod hwn os gwelwch yn dda.

Anfonwch at gwarchodycyhoedd@gwynedd.llyw.cymru